YN CYNNWYS/ INCLUDING

BL.13/ YEAR 13 TUD./PAGE 4
GWOBRAU/ AWARDS TUD./ PAGES 5-6
EISTEDDFOD YR URDD TUD./ PAGES 7-10
MABOLGAMPAU/ SPORTS DAY TUD./PAGES 14-15

# DIOLCH BL.13 ! THANKS YEAR 13!

DIWEDD CYFNOD YSGOL DYSGWYR BL.7 'OMG-YSGOL NI!'
THE END OF AN ERA FOR OUR 'OMG-YSGOL NI' YEAR 7' LEARNERS.



## NOSON FFARWELIO A 'PROM' CRIW 2015-2022

Yn 2015, roedd dysgwyr blwyddyn 7 yn cael eu dilyn fel rhan o raglen 'OMG:Ysgol Ni!' ar gyfer S4C. Erbyn hyn, mae'r dysgwyr yma wedi gorffen eu Lefel A ac yn aros yn eiddgar i glywed eu canlyniadau. Cafwyd Noson Ffarwelio i'r myfyrwyr, eu rhieni a'u gofalwyr dan arweiniad Mr Aled Owen, Pennaeth Bl.12/13. Yn ystod y noson, cawsom glywed negeseuon pwysig gan Mrs Bronwen Hughes, Mrs Emma Jones, Pennaeth y dysgwyr o fl.7-11, ynghyd â Cameron a Casi, ein Prif Ddisgyblion. Cafwyd noson hyfryd o hel atgofion a chloriannu cyfnod addysg uwchradd y garfan.

Y noson ganlynol, bu i'r disgyblion fwynhau 'Prom' yng Ngwesty'r Abode, Caer. Roedd pawb yn edrych yn hynod smart!

Mae wedi bod yn gyfnod heriol i'r dysgwyr yma gan iddyn nhw wynebu arholiadau ym mlwyddyn 13 wedi cyfnod y pandemig. Rydym yn falch iawn ohonynt, ac yn dymuno'r gorau iddynt wrth iddyn nhw gychwyn ar lwybr newydd, boed yn y gweithle neu yn y brifysgol. Diolch am bob dim, criw 2015-2022!

In 2015, year 7 were being followed as part of the documentary series 'OMG:Ysgol Ni!' for S4C. These learners have now reached the end of their secondary school careers having completed their A Levels, and are patiently awaiting their results! A Leaving Evening led by Head of Years 12/13, Mr Aled Owen, was well attended by the pupils and their parents/carers. During the evening, we heard important messages from Mrs Bronwen Hughes, Mrs Emma Jones, the learners' Head of Year from years 7-11, as well as from Cameron and Casi, our Head Pupils. A pleasant evening was had reminiscing and evaluating the cohort's secondary school experiences.

The following evening, a 'Prom' was held at the Abode Hotel, Chester. Everyone looked very smart!

It has been a difficult time for these learners who faced examinations following the pandemic. We are so proud of them, and we wish them the very best as they move on to their new challenge, be that in the workplace or in a university setting. Thank you for everything, class of 2015-2022!



Mae'n bleser gen i gyflwyno cylchlythyr olaf ein blwyddyn academaidd i chi. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur iawn ac roedd mor braf medru ail-gydio mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi bywydau ein dysgwyr.

Yn ystod yr hanner tymor, cafwyd wythnos weithgareddau, mabolgampau a theithiau amrywiol - cyfleoedd sy'n rhoi cymaint o brofiadau i'n dysgwyr. Hoffwn ddiolch i staff am arwain y gweithgareddau hyn. Rydw i'n gwybod gymaint o fudd mae ein dysgwyr wedi cael o'r arlwy a gynigiwyd iddynt.

Rydw i'n dymuno'n dda i fyfyrwyr Bl.13 sy'n ein gadael wedi saith mlynedd yn eu cwmni. Ble bynnag fydd eich camau nesaf yn eich arwain, byddwch yn hyderus ac yn barod i wneud gwahaniaeth. Rydych yn bobl ifanc arbennig iawn ac mi wn y byddwch yn llwyddiannus.
Diolch hefyd i flwyddyn 11 am eu cyfraniadau i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd. Rydw i'n edrych ymlaen at groesawu nifer ohonoch yn ôl i'r Chweched Dosbarth i gychwyn eich astudiaethau Lefel A.

Ym mis Medi 2022, bydd 116 o ddysgwyr yn ymuno â ni, ac roedd yn wych medru croesawu dysgwyr Bl.6 a'u rhieni i'r neuadd yn ddiweddar ar gyfer y Noson Drosglwyddo. Dyma fydd y tro cyntaf i ni groesawu dysgwyr o Ysgol Croes Atti, Glannau Dyfrdwy, ac mae ein staff yn edrych ymlaen yn fawr at gwrdd â'r holl ddysgwyr newydd. Byddwn hefyd yn croesawu aelodau staff newydd i'n hadrannau Cemeg, Cymraeg, Daearyddiaeth a Mathemateg.

Hoffwn ddiolch i'n holl ddysgwyr am wneud gwahaniaeth eleni - boed i'ch teuluoedd, i'ch cymuned, ac i ni yma yn Ysgol Maes Garmon. Ymlaciwch dros y gwyliau gan gadw'n ddiogel a gwneud atgofion cadarnhaol. Cymeraf y cyfle yma hefyd i ddiolch i'r holl staff sy'n sicrhau bod ein hysgol yn agor yn ddyddiol ac yn cynnig profiadau eang i'n dysgwyr.

Ym mis Medi, bydd yn hanfodol i'n dysgwyr gyrraedd yn barod i ddysgu, gyda'r agwedd a'r offer cywir, a gwisg ysgol smart. Byddwn hefyd yn gweithredu polisi ymddygiad newydd yn seiliedig ar 10 disgwyliad gan bob dysgwr. Rydw i'n gobeithio'n daer y byddwch yn ein cefnogi i sefydlu amgylchedd digynnwrf, parchus a llwyddiannus o ddiwrnod cyntaf y tymor.

Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Dymunaf wyliau haf ymlaciol a diogel i chi.

Bronwen Hughes
Pennaeth



It is my pleasure to present our final newsletter of this academic year to you. It has been such a busy year and it has been so nice to rekindle the extra-curricular activities that enrich the lives of our learners.

During this half term, we held our activities' week, sports day and various trips – opportunities that offer a wealth of experience to our learners. I would like to thank our staff for leading these activities. I know our learners have gained so much from the variety that has been offered to them.

I wish the students of Year 13 well following seven years in their company. Wherever your next steps take you, be confident and make a difference. You are very special young people and I know you will be successful.

Thanks also to Year 11 for their contributions to the school over the years. I'm looking forward to welcoming a large number of them back to the Sixth Form to start their A Level studies.

In September 2022, 116 Year 7 learners will join us, and it was wonderful to be able to welcome them and their parents and carers to school recently for a transition evening. This will be the first time that we receive learners from Ysgol Croes Atti, Glannau Dyfrdwy, and our staff are looking forward to meeting all our new learners. We will also welcome new teachers to the Chemistry, Welsh, Geography and Mathematics departments.

I would like to thank all our learners for making a difference this year – to their families, their communities, and to us here at Ysgol Maes Garmon. Have a good rest during the summer break, keep safe and make positive memories. I would also like to thank all our staff who ensure our school opens on a daily basis, offering such a range of opportunities to our learners.

In September, it is essential that all learners arrive ready to learn, with the correct attitude, equipment and uniform. We will also be operating a new behaviour policy based on a set of 10 expectations from every learner. I sincerely hope that you will support us as we establish a calm, respectful and successful learning environment from the first day of term.

I wish all parents and carers a restful and safe break, and I thank you for your support throughout the year.

Bronwen Hughes

Headteacher




# Noson Ffarwelio Bl.13/ Year 13 Farewell Evening

# GWOBRAU! AWARDS!

Llongyfarchiadau i Nanw, Bl.13, ar ennill Gwobr Gwirfoddoli Cyngor Tref Yr Wyddgrug.

Mae Nanw wedi codi swm sylweddol ar gyfer elusennau lleol eleni. Ardderchog, Nanw!

*Congratulations to Nanw, Yr 13, on winning the Mold Town Council Volunteer Award.*

*Nanw has raised a large sum of money for local charities this year. Well done, Nanw!*





Enillydd Gwobr Goffa Euryn Williams eleni yw Alice, Blwyddyn 13. Rhoddir y wobr i'r disgybl trochi sydd wedi ymrwymo'n llawn at ddysgu'r iaith a chyfrannu i ddiwylliant Cymru. Heb unrhyw amheuaeth, mae Alice wedi gwneud hynny - o gynrychioli'r ysgol mewn Eisteddfodau amrywiol at astudio Cymraeg Safon Uwch! Llongyfarchiadau, Alice!

*This year's winner of the Euryn Williams Memorial Prize is Alice, Year 13. The prize is awarded to an immersion course pupil who has fully committed themselves to learning the Welsh language and has contributed to the culture of Wales. Without doubt, Alice has done so - from representing the school in numerous Eisteddfodau to studying Welsh A Level. Congratulations, Alice!*




Mewn seremoni yn ddiweddar, gwobrwywyd Gwobr Goffa Ann Richardson i ddau ieithydd mwyaf disglair blwyddyn 11 , sef Teleri a Macsen Mitton.

Cyhoeddwyd y canlyniad gan Mr Gethin Richardson, mab y diweddar Mrs Ann Richardson, a derbyniodd Macsen a Teleri y wobr gan gyn-enillwyr 2021, Gruff ac Elin.

Caiff y wobr hon ei gwobrwyo'n flynyddol er cof am Mrs Richardson oedd yn athrawes Ffrangeg yn Ysgol Maes Garmon am flynyddoedd. Yn ogystal â bod yn athrawes wych oedd yn angerddol am ddysgu ieithoedd, roedd Mrs Richardson yn weithgar wrth gefnogi hawliau a chyfiawnder ac wrth wobrwyo'r wobr hon, mae'r ysgol yn ystyried y rhinweddau hyn hefyd.

Diolch i Mrs Catrin Hughes-Owen a Mrs Sian Eyres am eu gwaith o fewn yr adran ITM.

*In a recent ceremony, the Ann Richardson Memorial Prize was awarded to two of our most aspiring linguists in Year 11, Teleri and Macsen.*

*The result was revealed by Mr Gethin Richardson, Mrs Ann Richardson's son, and the prize was presented by past winners Elin and Gruff.*

*The prize is awarded annually in memory of Mrs Richardson who was a French teacher at Ysgol Maes Garmon for many years. As well as being an amazing teacher who was passionate about learning languages, Mrs Richardson was also proactive in supporting justice and rights and when deciding upon the winners, the school also factors these virtues.*

*Thank you to Mrs Catrin Hughes-Owen and Mrs Sian Eyres for their work in the MFL department.*

# Eisteddfod yr Urdd

## Braf cael cystadlu eto! *It's great to compete once more!*

Wedi i'r cyfnod Covid dewi canu a llefaru am ddwy flynedd, roedd hi'n braf treulio diwrnodau bendigedig yn Nyffryn Clwyd dros yr hanner tymor i gefnogi ein dysgwyr oedd yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau llwyfan. Gyda thri phafiliwn y tro hwn, roedd hi weithiau'n ras wyllt i gyrraedd pob cystadleuaeth, ond heb amheuaeth, roedd hi'n werth rhuthro i gael gweld a chlywed y fath safon gan ein dysgwyr ni!

Diolch yn fawr iawn i BOB UN o'n dysgwyr wnaeth gyfrannu eu doniau ac i'r athrawon arbennig fu'n eu hyfforddi: Mrs Bethan Wyn Jones; Mrs Gwennan Parry-Thomas; Mr Ynyr Llwyd; Miss Elin Roberts; Miss Lisa Owen. Diolch hefyd i Mrs Bethan Wyn Jones am ei holl waith trefnu er mwyn sicrhau bod dysgwyr a'u rhieni yn gwybod ble i fod. Llongyfarchiadau ANFERTHOL i bawb am roi enw'r ysgol ar fap Cymru!



Having had a period of silence during the Covid pandemic, it was great to spend some lovely days in the Vale of Clwyd during half-term supporting our learners who were representing the school in stage competitions. With three pavilions on site this time, it was sometimes a mad race to reach all the competitions, but without doubt, it was worth the effort to see and hear the amazing talent our learners possess!


Thank you to EVERY ONE of our learners who contributed their talents and to the teachers who taught them: Mrs Bethan Wyn Jones; Mrs Gwennan Parry-Thomas; Mr Ynyr Llwyd; Miss Elin Roberts; Miss Lisa Owen. Thanks also to Mrs Bethan Wyn Jones for all her organisation, ensuring learners and parents knew where to be! HUGE congratulations to everyone for placing the school's name firmly on the map of Wales!














**Beca** – Enillydd Unawd Merched Bl.7-9
(Girls' solo winner)

**Nancy** – Y 3edd wobr yn y Llefaru i Ddysgwyr (3rd prize in the Recitation for Learners).
LLONGYFARCHIADAU!





**Parti Ysgol Maes Garmon**

Y 3edd wobr yng nghystadleuaeth Parti Llefaru i Ddysgwyr (3rd place in the Recitation Group for Learners competition).
LLONGYFARCHIADAU!



Llongyfarchiadau anferthol i Erin, Bl.8 a Megan, Bl.9. Enillodd Erin ddwy wobr gyntaf yng nghystadleuthau arlunio – camp yn wir! Enillodd Megan wobr gyntaf am ddylunio ffasiwn. Da iawn chi!

Huge congratulations to Erin, Yr 8, and Megan, Yr 9. Erin won two first prizes for her art work – quite an achievement! Megan won first prize for her fashion designs. Well done to you both!



# Ar y Maes...



Braf oedd clywed 'Only Boys Aloud' yn canu ar faes yr Eisteddfod. Mae Kasey, Iwan a Ben yn aelodau o OBA Wrecsam. Cafwyd perfformiad hyfryd o drefniant eiconig OBA o 'Calon Lân' gyda Iwan yn canu'r unawd agoriadol!

*It was lovely to hear Only Boys Aloud performing on the Eisteddfod field. Kasey, Iwan and Ben are members of OBA Wrexham. They performed a beautiful rendition of OBA's signature song 'Calon Lân' with Iwan singing the opening solo!*





Diolch i Mabli a Macsen, Bl.10, am siarad efo'r DJ Marc Griffiths wrth lansio'r gân recordiwyd gan garfan TGAU Cerdd Blwyddyn 10. Ysgrifennwyd 'Dal i Ddod' gan ein dysgwyr fel ymateb i sut mae iechyd meddwl wedi newid ers cyfnod Covid.

*Thanks to Mabli and Macsen, Yr 10, for speaking to DJ Marc Griffiths at the launch of a song recorded by the Year 10 GCSE Music cohort. 'Dal i Ddod' was written as a way of conveying how people's mental health has been changed since the Covid pandemic.*



Llongyfarchiadau hefyd i'n holl ddisgyblion a enillodd wobrau Celf a Chrefft yn rhanbarthol:/ *Congratulations also to all our pupils who won Art and Craft prizes at county level:*

Bl.9/Yr 9: Megan

Bl.8/ Yr 8: Erin

Bl.7 / Yr 7: Mari; Gethin; Rosie.

# WYTHNOS Weithgareddau

Ar ddechrau mis Gorffennaf, cafodd ein dysgwyr gyfle i brofi amryw o weithgareddau. Bu Bl.12 yn gwneud profiad gwaith, tra roedd bl.10 wedi mynd gwneud gwaith gyrfaoedd. Roedd Bl.9 wedi gwneud prosiect *Prentis* tra roedd bl.8 wedi gwneud prosiect 'Amgueddfa'. Cafodd Bl.7 amryw o weithgareddau, gan gynnwys taith gerdded o amgylch Yr Wyddgrug i ymweld â'r amgueddfa a Bryn y Beili. Diolch i'r holl athrawon fu'n trefnu'r digwyddiadau.

*At the beginning of July, our learners recently had the opportunity to experience a variety of activities. Year 12 completed work experience, whilst year 10 completed a careers project. Year 9 completed 'Apprentice' tasks whilst year 8 completed a 'Museum' project. Year 7 experienced a wealth of acitivies, including a visit to the local museum and Bailey Hill. Thank you to all the teachers who arranged the activities*!



Blwyddyn 12
Profiad Gwaith
Work Experience



Diolch i griw Trochi Bl.7 am rannu profiadau efo trochwyr Bl.6! Diolch i Mrs Thomas am drefnu. Thank you to the Yr 7 Immersion Course cohort for sharing their experiences with the Yr 6 cohort! Thank you to Mrs Thomas for organising the experience.



Sw Gaer Bl.8 / Year 8 Chester Zoo

## Blwyddyn 8
## Amgueddfa-Lerpwl
## Liverpool-Museum

# WYTHNOS Weithgareddau









## Blwyddyn 7
## Yr Wyddgrug
## Mold







**SPEAKERS for schools**






Fel rhan o'r Wythnos Weithgareddau, cafodd Blwyddyn 10 y fraint o glywed hanes Jo Scott, Prif Swyddog Marchnata a Chyfathrebu *Lloyd's of London*. Sgwrsiodd yn agored am ei gyrfa a sut mae'n awyddus iawn i ddenu mwy o ferched i'r sector yswiriant. Cafodd ein dysgwyr gyfle i'w holi ac roedd Ms Scott wedi gwirioni efo'r amrywiaeth o gwestiynau a ofynnwyd. Mae hi'n awyddus iawn i rai o'n dysgwyr ymweld â hi yn Llundain yn y dyfodol agos!

*A part of our Activities' Week, Year 10 had the privilege of listening to Jo Scott, Chief Marketing and Communications Officer for Lloyd's of London. She spoke openly about her career and how she is eager to attract more women into the insurance sector. Our learners received an opportunity to ask Ms Scott questions, and she was delighted with the variety of questions asked. She is very keen for some of our learners to visit Lloyd's in the near future*!

Yn sgil sgwrs Jo Scott, cafodd holl ferched Blwyddyn 10 gyfle i wrando ar sesiwn 'Female Careers into Insurance' gan Ysgol Fusnes Bayes yn Llundain. Cafodd 32 o ferched y cyfle i glywed gan amryw o ferched – o Peru i Kenya – yn clywed am eu gyrfaoedd a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithio o fewn y sector.

*Following Jo Scott's presentation, all girls from Year 10 were invited to listen to a session live from Bayes Business School focussing on 'Female Careers into Insurance'. 32 girls listened to a varety of female speakers – from Peru to Kenya – talk about their careers and what is needed to enter this work sector.*



**BAYES BUSINESS SCHOOL**
CITY, UNIVERSITY OF LONDON









Llongyfarchiadau i'n pencampwyr eleni!/ Congratulations to this year's champions!

Bl./Yr 7: Keira & Lewis
Bl./Yr 8: Harri & Kaitlyn
Bl./Yr 9: Ceridwen & Ifan
Bl./Yr 10: Dean & Ava





# MABOLGAMPAU 2022 SPORTS DAY



***Mae ein diolch i... / Our thanks to:***

Mr Chris Williams; Mrs Emma Jones; Miss Linda Harrison; Staff YMG; Yr holl gystadleuwyr a chefnogwyr brwd!/ Our enthusiastic competitors and supporters!



# MABOLGAMPAU 2022 SPORTS DAY



# Perfformio / Performing





Llongyfarchiadau i garfan Bl.10 TGAU Drama am berfformio rhan o 'Blood Brothers' gan Willy Russell i staff yn ddiweddar! Diolch i Mrs Cleary am drefnu.

*Congratulations to the Year 10 GCSE Drama cohort for delighting staff with some scenes from Willy Russell's 'Blood Brothers' recently. Thanks to Mrs Cleary for arranging the opportunity.*

Rydym hefyd yn ddiochgar i Carl Jones o Theatr Clwyd a Mrs Sarah Carter-Jones am arwain y Clwb Perfformio eleni. Yn ystod sesiwn olaf y flwyddyn, diddanwyd staff a rhieni gan berfformiad o sgript wreiddiol y clwb! Llongyfarchiadau mawr!

*We're also grateful to Carl Jones from Theatr Clwyd and Mrs Sarah Carter-Jones for leading this year's Performing Club. The final session allowed staff and parents to enjoy a play written by the members. Well done!*







# Fepio / Vaping

Rydym fel staff yn bryderus iawn am y cynnydd cenedlaethol o bobl ifanc sy'n fepio. Mae ystadegau diweddaraf yn awgrymu bod 16% o bobl ifanc rhwng 11 ac 17 yn y Deyrnas Unedig wedi ceisio fepio. Mae fepio yn anghyfreithlon i rai dan 18 oed ac mae'r fêps ffug sy'n cael eu gwerthu hefyd ar gynnydd. Tra nad oes ymchwil cadarn am effaith hirdymor fepio, mae rhai adroddiadau yn awgrymu bod hyd at 60 o gemegion mewn fêp, a'r rheini yn medru cael effaith negyddol ar gyrff bobl ifanc.

Nid yw fepio nac ysmygu yn gyfreithlon ar dir yr ysgol, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r adeilad. Mae modd dirwyo unrhyw un sy'n euog o wneud hyd at £100.

Rydym yn eich annog fel rhieni a gofalwyr i gymryd cipolwg ar rai o symtomau fepio, ac i drafod peryglon posib y fath weithred efo'ch plentyn. Byddwch yn effro i'r mathau o fideos mae eich plentyn yn gwylio ar TikTok neu apiau tebyg, gan fod nifer o fideos yn cyfareddu fepio. Os oes gennych amheuon bod eich plentyn yn fepio'n anghyfreithlon, gallwch gysylltu â'r ysgol am gymorth gan asiantaethau allanol.




*We as staff are becoming increasingly concerned with the national increase in young people who are vaping. The latest statistics suggest that 16% of 11-17 year olds in the UK have tried vaping. Vaping is illegal to under 18 year olds and counterfeit vapes are a growing concern to Trading Standards, who report an increase in the sales of such items. Whilst there is little evidence of the long term effect of vaping, some reports state there are up to 60 chemicals in a vape that can negatively affect the bodies of young people.*

*Both vaping and smoking are illegal on school grounds, whether inside or outside the building. A possible fine of £100 can be issued to anyone found guilty of using vapes or cigarettes in school grounds.*

*We encourage you as parents and carers to look at some of the signs your child might be vaping and to discuss with them the dangers of using vapes at such a young age. Be alert to what your child is viewing on TikTok and similar apps, as videos can glamourize vaping. Should you have any concerns that your child is vaping, you can contact the school who can put you in touch with external agencies who will be able to help.*



Llongyfarchiadau i Lewis, Bl.7, sydd wedi ennill dwy fedal aur ym Mhencampwriaeth Agored Clwb Athletau Cilgwri yn ddiweddar - y naid hir a'r 800m gan guro ei amser gorau!
*Congratulations to Lewis, Yr 7, on winning two gold medals recently at Wirral Athletics Club Open Championships - for the long jump and 800m, beating his personal best!*



Mae ein Clwb Criced wedi mwynhau'r cyfle i chwarae gemau yn erbyn yr Alun yn ddiweddar. Diolch i Mr Aled Owen am drefnu!
*The Cricket Club has recently enjoyed playing some matches against the Alun School. Thank you to Mr Aled Owen for organising!*



Rydym mor falch o lwyddiant Grace, Bl.7, sydd ar hyn o bryd wedi ei gosod yn 7fed yn y Deyrnas Unedig am ei rasio BMX! Yn aelod o Glwb Rasio BMX Knowsley, mae hi'n cael ei hyfforddi gan gyn-bencampwr y byd, Quillan Isidor. Mae Grace wedi dysgu ei bod hi wedi ennill lle ym Mhencampwriaethau BMX y Byd yn Glasgow y flwyddyn nesaf. Ardderchog, Grace!

*We are so proud of Grace in Year 7 and her success in the BMX world. At present, she is ranked 7th in the United Kingdom! A member of the Knowsley BMX Racing Club, she is trained by former world champion Quillan Isidor. Grace has recently learnt that she has won a place in next year's BMX World Championships in Glasgow. Brilliant, Grace!*



Llongyfarchiadau i Harri, Bl.8, sydd wedi bod yn chwarae criced i dîm Gogedd Cymru. Congratulations to Harri, Yr 8, who has been playng cricket for the North Wales team.



Mae gyrfa criced Ela, Bl.11, yn mynd o nerth i nerth. Rydym yn falch iawn ohonot, Ela! Year 11's Ela's cricket career is going from strength to strength. We're very proud of you, Ela!



Llongyfarchiadau i'r merched oedd yn cystadlu ym mhencampwriaeth Ann Smart. *Congratulations to the girls who competed in the Ann Smart championships.*

# PROM BL.11 !









Neges i Fl.11 gan Mrs Emma Jones – Pennaeth Blwyddyn 11/ *A message to Yr 11 from Mrs Emma Jones- Head of Year 11*



Bu'n anrhydedd mawr eich arwain a'ch cefnogi chi Bl.11, rwy'n hynod o falch ohonoch. Rwyf wedi eich gweld chi'n datblygu i griw mor ddawnus, cyfeillgar a hoffus o bobl ifanc gyda chymaint i'w gynnig. Pob lwc i chi gyda'ch canlyniadau yn yr haf a phob hwyl i'r dyfodol – rwy'n sicr y bydd o'n ddisglair.




Mae ein hathrawon wedi eu gwahodd i ddanfon cerdyn arbennig i ddysgwyr sydd 'wedi gwneud gwahaniaeth eleni'. Mae hyn yn gyfle i ddweud diolch i'r dysgwyr sydd wedi gwneud rhywbeth arbennig yn ystod y flwyddyn.

*Our teachers have been invited to send a special card to learners who have 'made a difference this year'. This is an opportunity to thank the learners for doing something special during the year.*

Diolch i Mrs Bethan Wyn Jones am drefnu i dri o'n myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 – Hannah, Ela a Gruff – i brofi darlithoedd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiweddar.

*Thank you to Mrs Bethan Wyn Jones for recently organising a trip for three of Year 12 students – Hannah, Ela and Gruff – to visit Aberystwyth University and experience live lectures.*







Mae nifer o'n dysgwyr wedi bod yn Llandudno yn ddiweddar i gwblhau gwahanol brosiectau. Mae carfan TGAU Daearyddiaeth Blwyddyn 10 wedi bod i'r traeth i wneud gwaith maes. Diolch i Mr Aled Owen am drefnu. *Many of our learners have recently visited Llandudno to complete various projects. The Year 10 GCSE Geography cohort have been to the beach to participate in some field work. Thanks to Mr Aled Owen for organising.*



Diolch i'n cyn-ddisgybl Owain Williams o'r Urdd am gydweithio efo dysgwyr o fl.7-10 i lunio siarter pobl ifanc yn ddiweddar. Thank you to former pupil Owain Williams from the Urdd for working with members of years 7-10 to form a young persons' charter.







Roedd saith o ddysgwyr o fl.9 a 10 wedi cael dilyn cwrs Cymorth Cyntaf dan arweiniad Dawn Roberts o elusen 'Wisdom of Equus' yn ddiweddar. Cafodd y cwrs ei drefnu gan Mr Sion Williams a chafodd y dysgwyr ddysgu llwyth o wybodaeth newydd, ddefnyddiol. Dywedodd Rhian o fl.9 "Dwi wedi dysgu llawer o wybodaeth newydd a phwysig am anifeiliaid ac wedi penderfynu fy mod eisiau gweithio yn y maes yma yn y dyfodol".

Seven learners from years 9 and 10 recently got to follow a first aid course delivered by Dawn Roberts from the charity 'Wisdom of Equus'. The course was organised by Mr Sion Williams and the learners discovered a wealth of new and useful information. Rhian from year 9 stated "I have learnt so much new and important information about animals, I now know I want to work in this sector in the future".

# Pob lwc! Good luck! Bonne Chance!

Mae hi bob amser yn drist gorfod ffarwelio â staff ac ar ddiwedd y flwyddyn hon rydym yn ffarwelio ag aelodau o'n tîm sydd wedi gwneud gwahaniaeth i gymaint o'n dysgwyr!

*It's always sad to say goodbye to staff, and as this year draws to a close, we bid farewell to four members of our team who have made a difference in many of our learners' lives.*



Mae Mrs Siân Eyres wedi bod yn athrawes Ieithoedd Modern yn yr ysgol ers 2010. Ni fuasai cylchlythyr llawn ar ei chyfer yn medru crynhoi gymaint o effaith mae hi wedi ei gael ar ein dysgwyr. Mae ei hiwmor a'i gofal arbennig o les ein dysgwyr wedi sicrhau bod cannoedd o ddysgwyr wedi mwynhau eu gwersi Ffrangeg. Bydd 'Madame Eyres' yn ymuno ag Ysgol Morgan Llwyd fel athrawes ITM. Dymuniadau gorau i chi, Mrs Eyres!

*Mrs Siân Eyres has been a Modern Foreign Languages teacher at the school since 2010. Even if we were able to devote our whole newsletter to write about Mrs Eyres, it still wouldn't allow us the necessary space to summarize the effect she has had on our learners' lives. Her humour and special care of learners' well-being has meant that hundreds of learners have enjoyed their French lessons. 'Madame Eyres' will be joining Ysgol Morgan Llwyd as a MFL teacher. We wish you the very best, Mrs Eyres!*

Diolch hefyd i Miss Gwenllian Williams o'r Adran Gymraeg am ei gwaith arbennig y flwyddyn hon. Bydd Miss Williams yn ymuno â staff Ysgol Gyfun Llangefni. Mae Mr Morgan Ridgway a Mr Carwyn Selway-Jones yn gadael eu swyddi i fynd i deithio. Pob dymuniad da iddyn nhw i gyd!

*Thanks also to Miss Gwenllian Williams from the Welsh Department for her special work this year. Miss Williams is joining the team at Ysgol Gyfun Llangfeni. Mr Morgan Ridgway and Mr Carwyn Selway-Jones are leaving their posts to go travelling. We wish them all well!*









# Gwyliau hapus i bawb!
# Happy holidays to all!

Bydd Llyfrynnau Gwybodaeth yn cael eu dosbarthu ar ddydd Llun, 18fed o Orffennaf, 2022,  i flynyddoedd 7, 8, 9 a 10.

*Information Booklets for years 7, 8, 9 and 10 will be e-mailed on Monday, 18th July, 2022.*

**Cofrestru Bl.12/*Year 12 Registration***: 12:00   2.9.2022
**Ysgol ar agor i'r holl ddysgwyr/*School open to all learners*:** 5.9.2022